**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**i'r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft

## Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat. Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol.

## Nodyn:

Bydd y rhan fwyaf o'm hymateb yn berthnasol i'r 'Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol' sydd i ddod gan fod y rhain yn nodi trefniadau llywodraethu a gweinyddu a'r fframwaith deddfwriaethol y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) yn gweithredu ynddo. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi nodi meysydd lle gallai'r rheoliadau hyn a'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) fod â goblygiadau i'm ngwaith a amlinellwyd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf OGCC 2019. Byddwn yn croesawu trafodaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru a'm Swyddfa cyn cyhoeddi'r 'Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol' i ystyried y materion a godwyd

gennyf yn yr ymateb hwn.

**Awdurdodaeth OGCC - Deddf OGCC 2019**

Er fy mod yn croesawu'r dull pragmataidd a gymerwyd gan y rheoliadau i ganiatáu hyblygrwydd i CBCau bennu eu dull, a'r egwyddor bod y CBCau yn cael eu trin yn effeithiol fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldeb dros ystyried cwynion yn ymwneud â CBCau yn ymddangos yn amwys.

Mae Atodlen 3 Deddf OGCC 2019 yn cynnwys 'cyd-fyrddau' yn y gofrestr o awdurdodau rhestredig y gallaf ymchwilio iddynt am gamweinyddu. Serch hynny, diffinnir cyd-fyrddau yn yr achos hwn fel y rhai "y mae ei awdurdodau cyfansoddol oll yn awdurdodau lleol yng Nghymru". Mae'r CBCau a sefydlwyd gan y Rheoliadau Sefydlu yn cynnwys cynrychiolaeth Parciau Cenedlaethol ac maent hefyd yn gallu cyfethol aelodau ychwanegol yn ôl eu haddasrwydd. Heb ddynodiad penodol fel awdurdod rhestredig, gellir dadlau nad yw'r CBCau newydd yn dod o fewn fy awdurdodaeth yn llawn, a fy mhwerau i ymchwilio i gwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiannau gwasanaeth.

**Cod Ymddygiad**

Mae adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi pwerau i mi ymgymryd ag ymchwiliadau i fethiannau honedig gan aelodau, cyn-aelodau ac aelodau cyfetholedig i gydymffurfio â Chod Ymddygiad awdurdod lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau i mi ymchwilio i aelodau CBCau nad ydynt hefyd yn aelodau o awdurdodau lleol.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn cyflwyno gofyniad am god ymddygiad i aelodau a staff. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig ei gwneud yn ofynnol i aelodau a staff y CBCau newydd weithredu yn unol â'r gyfundrefn safonau moesegol ar gyfer gweision cyhoeddus. Rydym yn tybio bod camau ar y gweill i sicrhau bod aelodau cyfetholedig yn ddarostyngedig i'r un Cod Ymddygiad a chyfundrefn safonau moesegol ag y mae pob un arall sy'n cyflawni rôl yng Nghymru, ac y bydd aelodau'r cyhoedd yn gallu cwyno i'm swyddfa os ydynt o'r farn bod aelod o CBC wedi torri'r Cod Ymddygiad. Yn yr un modd, rydym o'r farn y dylai cyflogeion fod yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ar gyfer cyflogeion awdurdod lleol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, i sicrhau cysondeb o ran gweithredu ledled Cymru.

**Ymdrin â Chwynion**

Nid yw'r Rheoliadau Sefydlu yn nodi a oes bwriad y bydd disgwyl i CBCau fod â gweithdrefnau ymdrin â chwynion yn unol ag egwyddorion a chanllawiau'r Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) fel yr amlinellwyd yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau cyhoeddus Cymru 2019. Nid yw'n eglur yn y ddogfen ymgynghori a fydd y Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol yn ymdrin â'r maes hwn. I sicrhau bod gweithdrefn gwynion glir ar gael i'r sawl sy'n ymdrin â CBCau, rydym o'r farn y dylid cynnwys CBCau fel "awdurdod rhestredig" yn Neddf OGCC 2019 fel bod dull unffurf rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Effaith Ariannol**

Bydd ychwanegu cyrff corfforaethol i'm hawdurdodaeth yn golygu goblygiadau ariannol i'm Swyddfa. Felly, rwy'n croesawu cyfarfod â swyddogion i drafod yr effaith hon ac i rannu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol ar gyfer unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Cymhwyso Cyffredinol sydd i ddod.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Rhagfyr 2020**

**************************************************************************